Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 1 Tachwedd 2017

## Hysbysiad o gyfarfod:

# Cyngor Sir

## Dydd Iau, 9fed Tachwedd, 2017 at 2.00 pm, Council Chamber - Council Chamber

# AGENDA

*Prayers will be said prior to the Council meeting at 4.55pm. All members are welcome to join the Chairman for prayers should they wish to do.*

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | Ymddiheuriadau am absenoldeb | |
| 2. | Fforwm Agored i'r Cyhoedd | |
| 3. | Cyhoeddiad Cadeirydd a derbyn deisebau | 1 - 2 |
| 4. | Datganiadau o Fuddiant | |
| 5. | Cadarnhau cofnodion cyfarfod Cyngor y Sir a'i gynhaliwyd ar y 21ain o Fedi 2017 | 3 - 8 |
| 6. | I dderbyn cofnodion y Pwyllgor Archwilio | |
| 6.1. | 6ed o Orffennaf 2017 | 9 - 18 |
| 6.2. | 19eg o Fedi 2017 | 19 - 26 |
| 7. | I dderbyn cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democratig | |
| 7.1. | 5ed o Fehefin 2017 | 27 - 30 |
| 7.2. | 11eg o Fedi 2017 | 31 - 34 |
| 8. | Rhestr o Gynigion | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.1. | **Cynnig gan y Cynghorydd Sir M. Groucutt**<br><br>Mae Cyngor Sir Fynwy'n llongyfarch a chefnogi ymdrechion cyfredol pobl leol yn ardal Y Fenni sy'n ymgyrchu dros fynediad llawn i blatfformau gorsaf trenau'r Fenni. Mae'n credu bod hi'n warthus yn 2017 bod pobl gydag anabledd, yr henoed, rhieni gyda phlant ifanc mewn pramiau neu deithwyr gyda bagiau trwm dal heb fynediad.<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Network Rail a Threnau Arriva Cymru i weithredu mynediad llawn fel mater o frys. Mae'n galw ar y rheini sy'n gyfrifol i sicrhau bod cyllid digonol yn cael ei roi i'r neilltu i greu cyfleusterau a fydd yn galluogi pob teithiwr i gael mynediad rhydd i bob rhan o'r orsaf yn ystod oriau agor fel blaenoriaeth uchaf. | | |
| 8.2. | **Cynnig o'r Cynghorydd Sir A. Easson a'r Cynghorydd Sir P. Pavia**<br><br>Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi dechrau ymgynghoriadau ynglŷn â dyfodol Gwasanaethau Oedolion ledled Gwent. Yr awgrym yw canoli gofal dementia i ysbytai ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd ac uned yn Nhorfaen; ar ôl i Ysbyty'r Faenor gael ei gomisiynu yn 2021. Mae hyn yn awgrymu cau Ward San Pierre yn Ysbyty Cas-gwent, sy'n cael ei ddefnyddio am ofal dementia ar hyn o bryd. Buasai cefnogaeth am ofal dementia yng ngogledd Sir Fynwy'n bodoli yn Ysbyty Tri Cwm Hospital yng Nglyn Ebwy ac yn y de yn Ysbyty Sant Gwynllyw.<br><br>"Dwi'n cynnig bod y Cyngor hwn yn gweithio mewn cydweithrediad â BIPAB a CICAB i ddarganfod ffyrdd positif a blaengar o gael gwared â'r bygythiad hwn i Ysbyty Cas-gwent, sydd â 10 mlynedd ar ôl o'r fenter PFI i gwblhau'r contract, a dylid ehangu defnydd y cyfleuster hwn nid ei leihau. | | |
| 8.3. | **Cynnig o'r Cynghorydd Sir P. Pavia**<br><br>Mae Cyngor Sir Fynwy'n deall yr heriau demograffeg sy'n wynebu'r sir dros y degawdau i ddod. Mae'n adnabod y bydd twf yn y nifer o henoed yn sicr o ddodi mwy o alw ar ein system gofal cymdeithasol, gan fod poblogaeth sy'n heneiddio'n fwy tebygol o gael o leiaf un ac yn aml nifer o gyflyrau cronig megis dementia. Felly, mae wedi'i bryderu gan gynigion Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ailgynllunio gwasanaethau iechyd meddwl oedolion hŷn, gall olygu cau ward dementia San Pierre yn Ysbyty Cas-gwent a throsglwyddiad cleifion i Ysbyty Tri Chwm yng Nglyn Ebwy ac i Sant Gwynllyw Yng Nghasnewydd.<br><br>Mae'n galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i:<br><br>1. Ddechrau ymgysylltiad 'cadarn' ac 'ystyrlon' gyda chleifion, rhanddeiliaid a chymunedau lleol yn Sir Fynwy, ynglŷn â'i gynigion ailgynllunio ac i wrando ar bryderon priodol y bydd unrhyw drosglwyddiad gofal tu allan i'r sir yn creu;<br><br>2. Cwrdd yn rheolaidd â'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Ofal Cymdeithasol,<br>Diogelwch ac Iechyd ac uwch swyddogion, er mwyn archwilio modeli newydd, cynaliadwy ac wedi'u cyd-gynhyrchu o ofal am oedolion hŷn sydd ag afiechyd meddwl, fel rhan o gynllun | | |

| | | |
|---|---|---|
| | strategaeth eang y Cyngor i ddarparu gofal cymdeithasol integredig o safon uchel ledled y sir. | |
| 8.4. | **Cynnig o'r Cynghorydd Sir D. Batrouni**<br><br>Bod y Cyngor hwn yn pryderu bod y toriad mewn termau real sydd wedi digwydd i ysgolion yn Sir Fynwy dros y pedair blynedd diwethaf yn anghynaladwy; y gall y toriadau hyn arwain at ostyngiadau yn y nifer o staff a lleihau perfformiad yr ysgolion hyn; ac mae felly'n ymrwymo i atal y toriadau parhaol hyn ac i gynyddu'r gyllideb addysg gyffredinol am 2018/19 gan o leiaf £1m i helpu lleddfu pwysau ariannol parhaol. Bydd y grŵp Llafur yn gweithio gydag aelodau etholedig i gyd i weithredu'r cynnig hwn." | |
| 8.5. | **Cynnig o'r Cynghorydd Sir D. Batrouni**<br><br>Bod y Cyngor hwn yn anghytuno â'r broses lle bod penderfyniad am ddyfodol dwy ysgol uwchradd yn Sir Fynwy wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru heb unrhyw ymgynghoriad â'r cyngor llawn, y Cabinet neu'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc; yn credu bod cynsail bryderus yn cael ei chreu lle nad ydy aelodau lleol, yn enwedig aelodau Cas-gwent yn yr enghraifft hon, yn hysbys i benderfyniadau mawr sy'n effeithio'u preswylwyr; yn poeni am y goblygiadau i Ysgol Cas-gwent; ac yn credu nad yw pob opsiwn wedi cael eu harchwilio o ganlyniad | |
| 9. | **Adroddiadau'r Prif Swyddog, Enterprise** | |
| 9.1. | **Presenoldeb o Bell am gyfarfodydd Cyngor** | 35 - 48 |
| 9.2. | **Amseru cyfarfodydd Cyngor** | 49 - 56 |
| 10. | **Adroddiad Pennaeth Gweithrediadau** | |
| 10.1. | **Adroddiad Ailgylchu - Achos Busnes Terfynol, cymeradwyaeth gwariant cyfalaf ar gerbydau a bocsys** | 57 - 82 |
| 11. | **Cwestiynau Aelodau** | |
| 11.1. | **O'r Cynghorydd Sir P. Pavia i'r Cynghorydd Sir R. John. John**<br><br>A fydd yr Aelod Cabinet dros Addysg yn cyflwyno diweddariad ynglŷn â gweithgareddau'r Grŵp Cyfeirio Allanol, a gafodd ei sefydlu gan y Cyngor yn dilyn Arolygiad Estyn o'r awdurdod yn 2015? | |
| 11.2. | **O'r Cynghorydd Sir A. Easson i'r Cynghorydd Sir R. Greenland**<br><br>Ynglŷn â grantiau Pwyllgor Ardal 2017/2018 wedi'i cyllidebu o £5000. Mae hanner ffordd trwy'r flwyddyn ariannol, ond nid yw'r dyraniadau wedi'u rhyddhau er mwyn eu dosbarthu. Mae grwpiau lleol yn elwa o'r grantiau bach hyn. Byddwch chi'n eu rhyddhau mor gynted â phosib? | |
| 11.3. | **O'r Cynghorydd Sir A. Easson i'r Cynghorydd Sir R. Greenland** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ers 2008;<br><br>1) Maint o dai sydd wedi cael eu hadeiladu o flwyddyn i flwyddyn yn Sir Fynwy?<br>2) Maint o flwyddyn i flwyddyn oedd yn dai fforddiadwy?<br>3) Beth oedd y rhestrau aros o flwyddyn i flwyddyn dros yr un cyfnod? | |
| **11.4.** | **O'r Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir R. John**<br><br>Gall yr Aelod Cabinet adroddi os oes unrhyw anghysondeb rhwng y gwariant tybiannol a gwirioneddol ar wariant AAA (SEN) ddirprwyedig yn (i) 2016/17 (ii) 2015/16 a (iii) 2014/15? | |
| **11.5.** | **O'r Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir S. Jones**<br><br>Pa asesiad, os o gwbl, ydy'r Cyngor wedi'i wneud o gyffredinolrwydd 'period poverty' yn y sir? | |

## Paul Matthews

## Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

D. Batrouni
D. Blakebrough
M. Powell
V. Smith
P. Clarke
D. Dovey
A. Easson
R. Edwards
D. Evans
P.A. Fox
R.J.W. Greenland
L. Guppy
R. Harris
J. Higginson
G. Howard
S. Howarth
D. Jones
P. Jones
S. Jones
S.B. Jones
P. Jordan
P. Murphy
B. Strong
F. Taylor
A. Watts
A. Webb
K. Williams
J.Becker
L.Brown
A.Davies
L.Dymock
M.Feakins
M.Groucutt
R.John
L.Jones
M.Lane
P.Pavia
J.Pratt
R.Roden
T.Thomas
J.Treharne
J.Watkins
S. Woodhouse

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Cymunedau Cynaliadwy a Chryf

**Canlyniadau y gweithiwn i'w cyflawni**

**Neb yn cael ei adael ar ôl**

- Gall pobl hŷn fyw bywyd da
- Pobl â mynediad i dai addas a fforddiadwy
- Pobl â mynediad a symudedd da

**Pobl yn hyderus, galluog ac yn cymryd rhan**

- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau ddim yn effeithio ar fywydau pobl
- Teuluoedd yn cael eu cefnogi
- Pobl yn teimlo'n ddiogel

**Ein sir yn ffynnu**

- Busnes a menter
- Pobl â mynediad i ddysgu ymarferol a hyblyg
- Pobl yn diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd

**Ein blaenoriaethau**

- Ysgolion
- Diogelu pobl agored i niwed
- Cefnogi busnes a chreu swyddi
- Cynnal gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol

**Ein gwerthoedd**

- **Bod yn agored:** anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus
- **Tegwch:** anelwn ddarparu dewis teg, cyfleoedd a phrofiadau a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar barch un at y llall.
- **Hyblygrwydd:** anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol.
- **Gwaith tîm:** anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau.